# Pum Hwyaden

Edrychwch, mae 'na bum hwyaden fach yn mynd am dro.

Un, dwy, tair, pedair, pump. Helo hwyaid!

Pum hwyaden aeth i'r llyn,
Traed bach du a phlu bach gwyn.
Gwaeddodd mam yn ddigon crac -
Pedair sydd ar ôl.
Cwac! Cwac! Cwac!

Un, dwy, tair, pedair!

Pedair hwyaden aeth i'r llyn,
Traed bach du a phlu bach gwyn.
Gwaeddodd mam yn ddigon crac -
Tair sydd ar ôl.
Cwac! Cwac! Cwac!

Un, dwy, tair!

Tair hwyaden aeth i'r llyn,
Traed bach du a phlu bach gwyn.
Gwaeddodd mam yn ddigon crac -
Dwy sydd ar ôl.
Cwac! Cwac! Cwac!

Un, dwy!

Dwy hwyaden aeth i'r llyn,
Traed bach du a phlu bach gwyn.
Gwaeddodd mam yn ddigon crac -
Un sydd ar ôl.
Cwac! Cwac! Cwac!

Un!

Un hwyaden aeth i'r llyn,
Traed bach du a phlu bach gwyn.
Gwaeddodd mam yn ddigon crac -
Does dim ar ôl.
Cwac! Cwac! Cwac!

Dim un!

Mami aeth am dro i'r llyn,
Traed bach du a phlu bach gwyn.
Gwaeddodd mam "Dewch! Cwac! Cwac! Cwac!" -
Daeth pawb yn ôl.
Pob un wan jac!

© 2020 S4C